# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** | |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Gorffennaf 2014** | |
| Amser: | **09.00 – 11.00** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_03_07_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman AC (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews AC**<br>**Peter Black AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Mark Isherwood AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Tystion: | **John Griffiths AC, Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon**<br>**Huw Brodie, Director of Strategic Planning & Equality**<br>**Jon Westlake, Welsh Governmmet** |
| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)**<br>**Robin Wilkinson (Ymchwilydd)** |

TRAWSGRIFIAD

**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.**

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Griffiths AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, a'i swyddogion.

2.2 Yn ystod y sesiwn, cytunodd y Gweinidog a'i swyddogion i'r canlynol:
darparu ffigurau yn dangos y cynnydd o ran nifer yr ymwelwyr â henebion Cadw ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn hon;
darparu manylion am y gwaith a wnaed gan Cadw hyd yma i leihau ei ôl troed carbon a biliau cyfleustodau;
darparu copi o ymateb y Cyngor Celfyddydau i'r llythyr cylch gwaith 2014-15 gan y Gweinidog;
trafod gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau bod angen i awdurdodau lleol sicrhau bod cysylltiad rhwng ysgolion a llyfrgelloedd yn eu hardaloedd, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor;
darparu'r ffigurau ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn amgueddfeydd y tu allan i Gaerdydd;
rhannu manylion am yr ymchwil a wnaed mewn perthynas â risgiau iechyd ar gyfer oedolion eisteddog mewn gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol;
trefnu bod y Pwyllgor yn cael nodyn ar y mater o sicrhau bod y fenter 'Llyfrau Llafar Cymru' yn hyfyw yn y dyfodol;
darparu nodyn ar effaith dod â'r Gronfa Radio Cymunedol i ben;
darparu nodyn ar effaith y gostyngiad yn y cyllid a ddarperir i Gyngor Llyfrau Cymru.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 9 Gorffennaf 2014

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig.

## 4 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon - trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan John Griffiths AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, a'i swyddogion.

## 5 Trafod cwmpas gwaith craffu Cyfnod 1 Bil Cam-drin Domestig, Trais ar Sail Rhywedd a Thrais Rhywiol (Cymru)

5.1 Trafododd y Pwyllgor cwmpas ei waith a'i ddull gweithredu mewn perthynas â chraffu ar y Bil Cam-drin Domestig, Trais ar Sail Rhywedd a Thrais Rhywiol (Cymru) yng Nghyfnod 1

## 6 Trafod y flaenraglen waith a sut i ymdrin â'r gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

6.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith a sut i ymdrin â'r gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft